Annwyl Bawb

E-FWLETIN 29: 22 GORFFENNAF 2009

Mae arddangosfa Cefyn Burgess yn tynnu at ei therfyn bellach felly dyma'ch cyfle olaf i weld (ac i brynu!) y darluniau cywrain o gapeli Aberystwyth, Lerpwl neu America. Ers yr e-fwletin diwethaf mae Cefyn wedi ychwanegu at y casgliad o gapeli lleol gan gynnwys llun o gapel Blaenplwyf a fersiynau newydd o Gapel y Morfa, Bethel a Chapel Seion. Bydd yr arddangosfa yn cau am 4 o'r gloch dydd Sadwrn yma (25 Gorffennaf).

Gan fod pethau'n tawelu yma nawr, ni fydd e-fwletin ymhen pythefnos. Anfonir y nesaf ymhen rhyw fis felly nodir isod yr hyn fydd yn digwydd yma dros y mis nesaf.

SESIYNAU GALW I MEWN AR GYFER DARPAR WIRFODDOLWYR
10.00-4.00, dydd Iau, 23 Gorffennaf, dydd Iau, 6 Awst a dydd Iau, 27 Awst
CAVO sy'n trefnu'r sesiynau hyn ar gyfer pobl sy'n chwilio am gyfleoedd gwirfoddoli neu fudiadau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ac angen help recriwtio gwirfoddolwyr. Byddant yn cael eu cynnal yma ddwywaith y mis tan ddiwedd y flwyddyn.

TAITH DECHRAU'R DYFODOL (GIG GYDAG ARTISTIAID AMRYWIOL)
7.00-10.00, nos Sul, 26 Gorffennaf
Bydd strymio, drymio a hip-hop Cymraeg i'w clywed ar y sîn Gristnogol Gymreig y mis yma wrth i bedwar o fandiau ac artistiaid ifanc Cristnogol gynnal taith *Dechrau'r Dyfodol* o gwmpas Cymru – gan gynnwys noson yn y Morlan. Mae croeso i blant a phobl ifanc o bob oed mynychu'r digwyddiad a gwrando ar The Repercussion, Society Profiad, Tom Whitman a Steff Ellis. Esboniodd Aled Ifan, Gweithiwr Plant a Ieuenctid Eglwys Berea Newydd, Bangor a threfnydd y daith: *"Fel rhan o daith Dechrau'r Dyfodol mi fydd y bandiau'n teithio rownd Cymru ac yn dangos gobeithio bod dim rhaid canu hen emynau na eistedd yn llonydd am awr i fod yn rhan o eglwys. 'Swn i'n licio gweld llawer mwy o'r math yma o beth felly gobeithio y bydd y gigs yma wir yn ddechrau dyfodol newydd – yn arwain at lot o gigs a digwyddiadau eraill tebyg. Os ydach chi'n hoffi U2, 'chydig o hip hop neu Jack Johnson ac Alun Tan Lan, dyma'r daith i chi. Mae 'na groeso cynnes i bawb – pobl sy jyst hoffi clywed bandiau byw yn ogystal â phlant a phobl ifanc sy'n mynd i ysgol Sul."* Pris mynediad: £4. Gwybodaeth bellach: www.taith09tour.com.

FFORWM 50+ ABERYSTWYTH
2.00-5.00, dydd Mercher, 29 Gorffennaf
Cyfarfod misol i drafod materion sy'n berthnasol i bobl hŷn.

ARDDANGOSFA CENADAETHAU A STONDIN LLYFRAU
Prynhawniau Mawrth-Gwener, 11-14 Awst
Rhan o Gynhadledd Mudiad Efengylaidd Cymru.

DAWNS TE
2.00, dydd Sadwrn, 15 Awst
Trefnwyd gan Ymgyrch Ymchwil i Arthritis (bydd gwybodaeth bellach ar hysbysfwrdd Morlan yn agosach at y dyddiad).

BYW AR Y TIR
17 Awst-11 Medi
Arddangosfa ddwyieithog sy'n rhoi golwg ar hanes ffermio. Mae'r arddangosfa yn rhan o arddangosfa a ddangoswyd yn y Llyfrgell Genedlaethol yn ystod 2004, ac mae'r Morlan yn ddiolchgar iawn i'r Llyfrgell am gael ei benthyg.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr